



Ombwdsmon Ombudsman

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun

Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliad


Ymchwiliad Ehangach

1. Dylai fod tystiolaeth ddigonol ar gael er mwyn dangos yr angen i gychwyn ymchwiliad ehangach ‘ar ei liwt ei hun’.
2. Gall tystiolaeth:
 - Awgrymu y bu camweinyddiaeth systemig/methiant yn y gwasanaeth
 - Dangos bod camweinyddu systemig/methiant yn y gwasanaeth yn bodoli
 - Dangos bod potensial ar gyfer camweinyddu systemig/methiant yn y gwasanaeth
 - Awgrymu y gall y camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth a nodwyd fod yn fwy eang a systemig.
3. Gall y dystiolaeth fod oddi wrth:
 - Yr achwynydd a/neu’r corff y cwynir amdano
 - Cofnodion cwynion yr Ombudsmon
 - Tyst/tystion
 - Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, sefydliadau’r trydydd sector a thrydydd parti arall
4. Mae’r dystiolaeth yn cael ei hasesu er mwyn sefydlu a yw’r meini prawf i gychwyn ymchwiliad yn cael eu cwrdd, gan gynnwys:
 - a yw’r mater o fudd i’r cyhoedd
 - a oes amheuaeth rhesymol bod camweinyddu systemig a all achosi unrhyw unigolyn i brofi anghyfiawnder neu galedi

- a yw’r pryderon a nodwyd yn rhai a fyddai’n effeithio ar grwpiau eang o ddinasyddion neu unigolion, yn arbennig felly os ydyn nhw yn fregus neu wedi cael eu hanfanteisio efallai (er enghraifft, unigolyn neu grŵp o unigolion a fyddai’n cael anhawster i wneud cwyn) ac sy’n ymddangos yn debygol o brofi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i’r mater sy’n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad.
 - grym y dystiolaeth
 - grym perswâd y dystiolaeth
5. Os ydym yn ystyried bod y meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd ymarfer ymgynghorol er mwyn ceisio cael barn ynglŷn â gwerth ymchwilio, neu a yw sefydliadau eraill mewn sefyllfa well i ymchwilio.

Ymchwiliad Estynedig

6. Pan rydym eisoes wedi dechrau ymchwiliad i gŵyn a rydym yn dymuno dechrau ymchwiliad ar ein liwt ein hunain ynglŷn â materion sydd â chysylltiad sylweddol â’r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, byddwn yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ein liwt ein hunain.
7. Gellir cynnal ymchwiliad estynedig lle mae cwyn ynglŷn ag:
 - un elfen o wasanaeth, a/neu
 - ynglŷn ag un darparwr gwasanaethyn gysylltiedig yn agos â
 - digwyddiad posibl arall o fethiant yn y gwasanaeth, a/neu
 - darparwr gwasanaeth arall sy’n gysylltiedig.

- 
8. Os yw'r meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd darparwr/darparwyr y gwasanaeth a'r achwynydd yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad i ymestyn yr ymchwiliad. Bydd y partiön sydd ynghlwm yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio. Os yw'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, bydd yr achwynydd yn cael y cyfle i symud y mater ymlaen o dan reoliadau 'Gweithio i Wella' fel dewis amgen, os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Sut i gysylltu â ni

Ffôn 0300 790 0203

E-bost holwch@ombwdsmon.cymru

Ewch i'r wefan www.ombwdsmon.cymru

Ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)